# PWYLLGOR ARCHWILIO

**(Remotely via Teams)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2020** |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Cynghorwyr:** | S.apDafydd, S.E.Freeguard, J.Miller, R.W.Wood, O.S.Davies, A.N.Woolcock, A.J.Richards, H.C.Clarke, S.Renkes a/ac R.Mizen |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | H.Jenkins, C.Griffiths, H.Jones, D.Mulligan, S.M.Davies, C.Furlow-Harris, S.Blewett, A.Manchipp, T.Davies a/ac C.Davies |
| **Cynrychioli Swyddfa Archwillio Cymru:** | C.Davies, G.Gillett a/ac K.Havard |
| **Aelod Lleyg sy’n Pleidleisio:** | J.Jenkins |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd H.C.Clarke | Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch Cau Cyfrifon 2019/2020 oherwydd ei bod yn lywodraethwr yn YGG Tyle'r Ynn, y sonnir amdani yn yr adroddiad. |

2. **ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau gan Swyddfa Archwilio Cymru am y tri adroddiad canlynol:

Cynllun Archwilio 2020

Cynllun Archwilio Blynyddol CNPT 2020 - Effaith COVID-19
Rhaglen Waith Swyddfa Archwilio Cymru

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau/cwestiynau canlynol:

- Ydy Swyddfa Archwilio Cymru'n hyderus y gall rheoli'r gwaith archwilio ariannol yn ystod pandemig COVID-19? Mewn ymateb, rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw broblemau ynghylch rheoli'r gwaith archwilio ariannol ond dywedodd y gall gwaith arall nad yw'n frys gael ei ail-drefnu.
- A oedd Swyddfa Archwilio Cymru'n gallu olrhain y llif cyllid a rhoi prosesau llywodraethu digonol ar waith ynghylch hyn? Sicrhawyd aelodau unwaith eto y byddai hyn yn cael ei wneud.
- Sut bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n cyfleu'r wybodaeth hon i'r awdurdodau lleol? Sicrhaodd Swyddfa Archwilio Cymru'r pwyllgor y caiff hyn ei wneud yn y ffordd arferol os cynhelir cyfarfod y Pwyllgor Archwilio.
- Sut byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflawni ei weithredoedd o ran llywodraethu? Cynghorodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol y pwyllgor yr oedd angen diwygio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gymeradwywyd yn flaenorol gan y cabinet yn dilyn cychwyniad COVID-19, ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n parhau i archwilio'r Datganiad o Gyfrifon. Fodd bynnag, roedd problem ynghylch archwilio'r dogfennau'n gyhoeddus oherwydd bod adeiladau dinesig yr awdurdod ar gau i'r cyhoedd, ac i fynd i'r afael â hyn, newidiodd Swyddfa Archwilio Cymru'r dyddiad ar gyfer derbyn cwestiynau'r cyhoedd i 1 Medi 2020.
- Gofynnodd y pwyllgor a oedd unrhyw oblygiadau i'r awdurdod yn dilyn dyfarniad McCloud a dywedwyd wrthynt fod yr actiwari wedi darparu manylion unrhyw effaith ariannol ar yr awdurdod ac fe'u cynhwysir yn y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/2020.
- Gofynnodd aelodau a gafwyd unrhyw effaith ar y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/2020 o ganlyniad i COVID-19 a dywedwyd wrthynt bod hyn wedi bod yn gyfyngedig. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol yn paratoi adroddiad am oblygiadau'r flwyddyn ariannol bresennol.
- Pa newidiadau a wnaed a sut byddai aelodau'n cael eu hysbysu? Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg byr i'r pwyllgor o'r trefniadau sydd ar waith ynghylch y broses ddemocratig, yn ogystal â materion megis cymorth trethi i fusnesau, darparu lwfansau yn lle prydau ysgol am ddim, etc. Dywedodd Swyddog Archwilio Cymru y byddai dwy ffrwd waith yn cael eu

gweithredu, sef y Prosiect Dysgu COVID, a fydd yn rhannu arfer gorau, yn rheoli risg ac yn rhannu cyfleoedd y gall y 'normalrwydd newydd' ei ddarparu; a Chynllunio Adferiad.

- Mynegwyd pryderon y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau'r flwyddyn nesaf a'r goblygiadau y gallai hyn ei gael ar y broses ddemocratig yn enwedig. Roedd yr aelodau'n pryderu'n fawr nad oedd cyfarfodydd y pwyllgorau craffu eraill yn cael eu cynnal. Cynghorwyd y pwyllgor bod y broses bresennol yn cael ei monitro a'i hadolygu ac y byddai'r Panel Adferiad a sefydlwyd yn ddiweddar yn rhan o roi hon ar waith.

Dywedwyd wrth aelodau y byddai Llywodraeth Cymru'n ad-dalu'r rhan fwyaf o wariant ychwanegol yr awdurdod o ganlyniad i COVID-19. Derbyniodd yr awdurdod daliad ar gyfer mis Mawrth ac mae'n aros am daliad mis Ebrill. Cyflwynir yr anfoneb ar gyfer mis Mai'n fuan i gydymffurfio ag amserlen Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiadau uchod.

## 3. CAU CYFRIFON 2019/2020

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol mewn perthynas â sefyllfa alldro'r cyngor ar gyfer Refeniw a Chyfalaf a'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnwyd i'r aelodau a oedd unrhyw oblygiadau i gyfraniadau pensiwn staff o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a dywedwyd wrthynt nad oedd unrhyw effaith oherwydd ni roddwyd staff yr awdurdod ar daliadau ffyrlo.

Diolchodd yr aelodau i'r staff am y gwaith a wnaed wrth lunio'r Datganiad o Gyfrifon Drafft mewn amgylchiadau mor anghyffredin.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**